# Django Reinhardt



Ganwyd Jean “Django’ Reinhardt ar y 23ain o Ionawr, 1910 a bu farw ar yr 16eg o Fai, 1953. Yr oedd yn sipsi Romani o wlad Belg ac yn gitarydd a chyfansoddwr llwyddiannus iawn.

Gitarydd jazz oedd Reinhardt a ddysgodd ei hun i chwarae’r gitar. Mewn damwain erchyll pan aeth y garafán lle roedd e a’i deulu yn byw ar dân, llosgodd ei law. Toddodd dau o’i fysedd ar ei law chwith at ei gilydd. Er iddo golli pob hyder am dro, prynodd ei frawd gitâr arall iddo ac aeth ati i ailddysgu ei hun i chwarae gyda thri bys.

Reinhardt yw tad y math o gerddoriaeth ‘gypsy-jazz’. Mae ei gerddoriaeth a’i ddull o chwarae’r gitâr yn fyd-enwog.

Mae mwy o wybodaeth am Reindhart ar y we lle gallwch hefyd wrando ar ei gerddoriaeth:

Dolenni posib……
https://www.youtube.com/watch?v=PQhTpgicdx4
https://www.youtube.com/watch?v=Cz01elysL0E
http://www.biography.com/people/django-reinhardt-9454889